

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
CYFARFOD:	CYNGOR SIR
DYDDIAD:	14 MAI 2019
TEITL YR ADRODDIAD:	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd – Adroddiad Blynyddol 2018/19
ADRODDIAD GAN:	Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
PWRPAS YR ADRODDIAD:	Adrodd ar waith y Pwyllgor yn ystod 2018/19

1. Rhagarweiniad

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i sefydlu Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gefnogir gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

Prif bwrpas y Pwyllgor yw adolygu digonolrwydd y ddarpariaeth yn yr Awdurdod o ran staff, swyddfeydd ac adnoddau eraill er mwyn cyflawni dyletswyddau a swyddogaethau Gwasanaethau Democrataidd. Dan y Mesur, rhaid i'r Pwyllgor gyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn i adrodd ar faterion o'r fath i'r Cyngor.

Dyma'r seithfed adroddiad blynyddol y mae'r Pwyllgor wedi ei ddarparu ers ei sefydlu yn 2012.

2. Rhaglen Waith y Pwyllgor

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r materion a drafodwyd gan y Pwyllgor yn ystod 2018/19 a cheir ynddo hefyd sylwadau ar y statws cyfredol.

Yn gyffredinol, canolbwyntiodd y Pwyllgor ar y meysydd canlynol:

- Cynlluniau Hyfforddi a Datblygu Aelodau
- Gwe-ddarlledu cyfarfodydd
- Adroddiad Blynyddol y Panel Annibynnol ar Gynabyddiaeth Ariannol
- Materion cysylltiedig ag Aelodau yn cynnwys – Siartr Cymru ar gyfer datblygiad a chefnogaeth Aelodau
- Adroddiadau Blynyddol Aelodau
- Cynhaliwyd cyfanswm o 5 cyfarfod o'r Pwyllgor dros y deuddeg mis diwethaf.

Yn y tabl isod, ceir crynodeb o'r materion a drafodwyd ym mhob cyfarfod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Dyddiad y Pwyllgor	Pwnc	Statws Cyfredol
02/05/2018	Ethol Cadeirydd / Ethol Is-gadeirydd	Cynhelir cyfarfod arbennig ar 14 Mai, 2019 i ethol Is-gadeirydd
26/09/2018	Materion yn ymwneud ag Aelodau	Roedd yr adroddiad yn ymwneud â'r materion canlynol: i) Gwybodaeth wedi'i diweddaru ar baratoad yr adroddiadau blynyddol yn nodi bod 29 o'r 30 adroddiad wedi eu derbyn ac wedi eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor. ii) Yr amserlen ar gyfer ail-gyflwyno hunanasesiad y Cyngor ar gyfer Siartr CLILC ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau iii) Gwybodaeth ar wiriadau DBS Aelodau ac Aelodau cyfetholedig. iv) Y defnydd o system reoli pwyllgorau Modern.gov ar gyfer cynnwys cofnodion presenoldeb a hyfforddiant aelodau. v) Cyrff allanol – fframwaith gan y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ar gyfer monitro partneriaethau allweddol fel rhan o'i raglen waith Cyflwynwyd diweddariad pellach i'r Pwyllgor ym Mawrth 2019.
	Cynlluniau Datblygu Aelodau	Ystyriwyd adroddiad cynnydd ar y cynllun datblygu a hyfforddiant gan gynnwys e-ddysgu. Cyflwynwyd diweddariad pellach i'r Pwyllgor ym Mawrth 2019.
	Rhaglen Waith y Pwyllgor	Roedd yr adroddiad hwn yn crynhoi'r materion ar gyfer eu hystyried gan y Pwyllgor yn 2018/19.
27/11/18	Rhybudd o Gynigiad – Gwe-ddarlledu Pwyllgorau Sgriwtini	Cafodd y Rhybudd o Gynigiad a oedd yn edrych i ymestyn gwe-ddarlledu i Bwyllgorau Sgriwtini ei gyfeirio at y pwyllgor ar gyfer ei ystyried. Bu'r Pwyllgor argymhell na ddylid gwneud unrhyw newid i'r cyfansoddiad a chadarnhawyd hyn gan y Cyngor ar 11 Rhagfyr, 2019.

	Rhybudd o Gynigiad – Cyfraniadau Cyhoeddus mewn cyfarfodydd	Ceisiodd y Rhybudd o Gynigiad ddiwygio'r Cyfansoddiad er mwyn galluogi cynigion gan aelodau o'r cyhoedd a gefnogir gan 50 o lofnodion gan unigolion sy'n byw yn Ynys Môn i gael eu trafod yn y Cyngor llawn. Bu'r Pwyllgor argymhell na ddylid gwneud unrhyw newid i'r cyfansoddiad a chadarnhawyd hyn gan y Cyngor ar 11 Rhagfyr, 2019.
	Adroddiad Drafft y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRP) 2019 / 20	Roedd yr adroddiad yn delio ag argymhellion yn yr adroddiad drafft ac fe'i derbyniwyd gan y Pwyllgor. Cyflwynwyd adroddiad pellach ar adroddiad blynyddol yr IRP ar gyfer 2019/20 i'r Pwyllgor ar 25 Mawrth.
05/03/2019	Adroddiad Blynyddol IRP ar gyfer 2019 / 20	Ystyriwyd adroddiad terfynol yr IRP gan y Pwyllgor. Bydd y cynnig yn cael ei adrodd i'r Cyngor ar 14 Mai, 2019.
	Strategaeth Datblygu Aelodau 2019 / 20	Pwrpas yr adroddiad hwn oedd ystyried y Strategaeth ddrafft ar gyfer Datblygu Aelodau i'w chymeradwyo. Mae'r Strategaeth yn darparu fframwaith holl gyffredinol ar gyfer datblygiad Aelodau ac yn nodi'r disgwyliadau a osodir ar Aelodau i ymgymryd â hyfforddiant fel rhan o'u rolau. Cymeradwywyd y Strategaeth gan y Pwyllgor.
	Cynllun Datblygu a Hyfforddi Aelodau ar gyfer 2018 / 19	Roedd yr adroddiad yn cynnwys diweddariad ar gynnydd o ran darparu'r cynllun hyfforddiant yn dilyn adroddiad i'r Pwyllgor ym Medi 2018. Derbyniwyd yr adroddiad gan y Pwyllgor.
	Materion Aelodau	Roedd yr adroddiad cyn cynnwys diweddariad ar nifer o faterion a oedd yn berthnasol i Aelodau, yn dilyn adroddiad i'r Pwyllgor hwn ym Medi, 2018. Mae'r Cyngor bellach wedi derbyn cadarnhad gan CLILC fod y cyflwyniad ar gyfer adnewyddu'r statws Siatr Datblygiad Aelodau wedi ei gymeradwyo.
	Adroddiadau Blynyddol Aelodau	Bu'r adroddiad hwn amlinellu'r amserlen ar gyfer cwblhau adroddiadau blynyddol, i'w cyhoeddi ar wefan y Cyngor erbyn 30 Mehefin, 2019. Derbyniwyd yr adroddiad gan y Pwyllgor.

02/05/2019	Cynllun Datblygu Aelodau 2019 / 20	Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i adroddiad ar bynciau penodol i'w cynnwys yn y rhaglen datblygu. Bydd y rhaglen yn cael ei ddiweddarau yn ystod y flwyddyn a'i fonitro gan y pwyllgor hwn. Derbyniwyd yr adroddiad gan argymhell i'r Cyngor Sir ei dderbyn ar 14.5.2019

Argymhelliad:

Gofynnir i'r Cyngor Sir dderbyn yr adroddiad a nodi'r materion a drafodwyd gan y Pwyllgor yn ystod 2018/19.

Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
02/05/2019